mewnprint

CYLCHLYTHYR I'R DIWYDIANT CYHOEDDI LLYFRAU YNG NGHYMRU

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

MAWRTH 2004 | RHIF 33

Cyflwyniad

Ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn, bu'n gyfnod prysur iawn i'r diwydiant llyfrau yng Nghymru. Fe roddir sylw yn y rhifyn hwn i baratoadau Diwrnod y Llyfr, yn ogystal ag i Adolygiad Polisi'r Cynulliad ar Ysgrifennu Cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

Un o'r datblygiadau mwyaf cyffrous y cyfeirir ato yw'r trefniadau ar gyfer Llyfr y Flwyddyn. Hyderwn yn fawr y bydd hwn yn gyfle gwych i bawb o fewn y diwydiant llyfrau gefnogi'r cynllun a hybu gwerthiant y llyfrau.

Adolygiad Polisi'r Cynulliad

Erbyn hyn y mae Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad wedi derbyn a chlywed tystiolaeth gan nifer o sefydliadau ac unigolion fel rhan o'r Adolygiad Polisi ar Ysgrifennu Cyfrwng Saesneg yng Nghymru.

Canmolodd y Pwyllgor safon y dystiolaeth a dderbyniwyd, ac fe fydd yr adroddiad terfynol yn barod erbyn diwedd mis Mawrth.

'Rydym yn croesawu'n fawr y cyfle i drafod anghenion cyhoeddi yn yr iaith Saesneg,' meddai Gwerfyl Pierce Jones, Cyfarwyddwr y Cyngor Llyfrau, 'a'n gobaith yw y gwêl y Cynulliad bwysigrwydd buddsoddi yn y sector fel y gwnaethpwyd yn ddiweddar gyda chyhoeddi Cymraeg.'

Llyfrau Hanner Pris

Fe ddaeth yn amser y Sêl Llyfrau Flynyddol unwaith eto, a gynhelir o ddechrau Mawrth hyd at ddiwedd Ebrill. Trwy gydweithrediad y cyhoeddwyr, mae rhestr dda wedi'i pharatoi gyda'r llyfrau i gyd yn cael eu cynnig am hanner pris neu lai. Mae Adran Farchnata'r Cyngor Llyfrau yn annog yr holl siopau llyfrau i gymryd rhan yn y Sêl ac mae'r manylion eisoes wedi eu dosbarthu iddynt. Hyderwn yn fawr y gallwn ailadrodd llwyddiant y llynedd.

A ninnau'n agosáu at Ddiwrnod y Llyfr, y mae'r trefniadau terfynol wrthi'n cael eu cadarnhau, gydag amrywiaeth fawr o weithgareddau'n cael eu cynnal drwy Gymru. 'Mae mwy a mwy o gefnogaeth i'r dathliadau bob blwyddyn,' meddai Delyth Humphreys, cydlynydd y gweithgareddau ar ran y Cyngor Llyfrau, 'ac rydym yn falch bod y plant iau, pobl ifanc ac oedolion yn ymuno yn yr achlysur. Mae'n bwysig iawn ein bod yn pwysleisio bod llyfrau'n rhoi mwynhad i bobl o bob oed.'

Fel rhan o'r dathliadau mae yna straeon arbennig wedi eu comisiynu gan awduron penodol i'w e-bostio i'r ysgolion; bydd rhai siopau llyfrau ledled Cymru'n derbyn ymweliadau gan awduron adnabyddus; bydd rhaglen o weithgareddau'n digwydd drwy ysgolion a llyfrgelloedd ymhob cwr o Gymru, ac mae'r cyfryngau eisoes wedi dangos eu parodrwydd unwaith eto i hybu'r achlysur.

Fel y cofiwch, cynhelir darlith Diwrnod y Llyfr yn flynyddol, a'r tro hwn fe wahoddwyd Rachel Van Riel, Cyfarwyddwr 'Opening the Book' (cwmni a sefydlwyd i hybu cynlluniau datblygu darllen) i sôn am ei phrofiadau yn datblygu cynlluniau darllen mewn llyfrgelloedd ac ysgolion. Fe fydd nifer o lyfrgellwyr Cymru yn adnabod Rachel gan ei bod ynghlwm â chynllun Estyn Allan yng Nghymru. Cadeirir y ddarlith gan Jane Davidson, Gweinidog Addysg y Cynulliad.

Os gwyddoch am unrhyw ddigwyddiad Diwrnod y Llyfr yn eich ardal, byddai Delyth Humphreys yn falch o glywed gennych. Yn dilyn yr achlysur fe fydd adroddiad gwerthuso yn cael ei baratoi ac fe'i ddefnyddir i gefnogi cais am arian i'r Cynulliad i barhau'r digwyddiad yn y dyfodol.

Ymweliad Alun Pugh

Bu Alun Pugh, y Gweinidog Diwylliant, ar ymweliad â'r Cyngor Llyfrau yn ddiweddar, gan ymweld i ddechrau â'r Ganolfan Ddosbarthu. Wrth dywys y Gweinidog o amgylch yr adeilad cafodd Dafydd Charles Jones, Rheolwr y Ganolfan, gyfle i ddangos yr ystod eang o lyfrau Cymraeg a Saesneg sydd mewn stoc yno.

Yn nes ymlaen, ymwelodd y Gweinidog hefyd â Chastell Brychan, pryd y cafwyd cyfle i sôn wrtho am rai o brif wasanaethau'r Cyngor ym maes marchnata, golygu, dylunio a hybu llyfrau plant.

'Roedd yn bleser cael croesawu'r Gweinidog i'r Cyngor,' meddai Gwerfyl Pierce Jones, 'ac fe'n calonogwyd yn fawr gan ei ddiddordeb yn y gwaith.'

LLYFR Y FLWYDDYN
BOOK OF THE YEAR

Fel y gwyddoch, mae'n siŵr, mae yna drefniant newydd eleni ar gyfer Llyfr y Flwyddyn a weinyddir gan yr Academi.

Bydd y rhestr hir – a fydd yn cynnwys 10 teitl Cymraeg a 10 teitl Saesneg – yn cael ei chyhoeddi ar Ddiwrnod y Llyfr. Mae'n fwriad gan yr Academi drefnu taith o gwmpas Cymru pryd y bydd cyfle i'r cyhoedd glywed yr awduron yn trafod eu gwaith. Fe gynhyrchir eitemau hyrwyddo hefyd ar gyfer siopau llyfrau a llyfrgelloedd.

Fe gyhoeddir y rhestr fer (tri llyfr Cymraeg a thri llyfr Saesneg) ym mis Mai, cyn i enwau'r ddau lyfr arobryn – sy'n derbyn gwobr o £5,000 yr un – gael eu cyhoeddi'n derfynol mewn seremoni arbennig yng Nghaerdydd.

'Rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau sylw yn y cyfryngau i'r wobr eleni,' meddai Luned Jones o'r Academi, 'ac yn gobeithio'n fawr y bydd y cyhoeddusrwydd yn sbarduno'r cyhoedd i brynu ac i ddarllen y llyfrau a ddaeth ar y brig.'

gwales.com

Mae'r Cyngor Llyfrau ar hyn o bryd yn cyflwyno rhai newidiadau i wefan gwales er mwyn hwyluso'r broses o gael gwybodaeth am lyfrau o Gymru. Bydd y newidiadau hyn yn cynnwys dyluniad newydd i'r prif dudalen yn ogystal â botymau ychwanegol yn tynnu sylw at lyfrau penodol.

Gwobrau Tir Na n-Og

Cyhoeddir enwau enillwyr Gwobrau Tir Na n-Og ar Ddiwrnod y Llyfr eleni, ac fe nododd y beirniaid eu bod wedi mwynhau'r gwaith o ddarllen yr holl lyfrau. Y rhestr fer ar gyfer y categori Llyfr Cymraeg Gorau'r Flwyddyn yw:

Ffuglen Orau'r Flwyddyn
Y 'Fo' yn y Tŷ, Mair Wynn Hughes (Gwasg y Bwthyn)
Iawn Boi?;), Caryl Lewis (Y Lolfa)
Mewn Limbo, Gwyneth Glyn (Y Lolfa)

Llyfr Gorau'r Flwyddyn ac eithrio Ffuglen
Ffeithiau Ffwtbol, Gari Pritchard (Dref Wen)
Mae Modfedd yn Llawer Mewn Trwyn, gol. Myrddin ap Dafydd (Carreg Gwalch)
Stori Dafydd ap Gwilym, Gwyn Thomas a Margaret Jones (Y Lolfa)

Trafod Llyfrau yng Ngregynog

Cynhelir cynhadledd yr 'Association for Welsh Writing in English' yng Ngregynog ar 26–28 Mawrth gan gymryd ysgrifennu a'r celfyddydau gweledol yng Nghymru fel thema. Ymysg y siaradwyr ar y penwythnos fe fydd Peter Lord, Tony Curtis a Ceridwen Lloyd Morgan.
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Dr Katie Gramich ar 0117 9299641 (k-y-gramich@open.ac.uk).

Taflen o Lyfrau Poblogaidd

Y daflen nesaf i'w chyhoeddi dan adain Cynllun Ymestyn y Cyngor Llyfrau fydd yr un i hybu llyfrau Cymraeg poblogaidd, a'r bwriad yw cael y daflen yn barod erbyn diwedd Mawrth. Mae Emma Evans, Swyddog y Cynllun Ymestyn, wrthi'n cysylltu â'r cyhoeddwyr ar hyn o bryd. 'Mae'r taflenni hyn yn hynod boblogaidd,' meddai Emma, 'ac yn ffordd effeithiol iawn o dargedu darllenwyr gyda gwybodaeth am lyfrau o Gymru.'

Tocynnau Llyfrau

Fel y cofiwch, rhoddwyd sylw yn y rhifyn diwethaf o *Mewn Print* i'r ffaith bod y Cyngor Llyfrau wedi cyhoeddi set newydd o docynnau llyfrau. Rydym yn falch o gael nodi bod chwe cherdyn arall wedi eu paratoi erbyn hyn gan roi dewis o 12 cerdyn i'r prynwyr.

'Cafwyd ymateb arbennig o dda i'r cardiau a'r tocynnau newydd,' meddai Phil Davies, Pennaeth yr Adran Farchnata. 'Rydym hefyd wedi paratoi stand arbennig ar eu cyfer a fydd yn cael eu dosbarthu i'r siopau llyfrau yn fuan.'



Targedu Ysgolion

Y mae'r Cyngor Llyfrau wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar yn targedu ysgolion gyda gwybodaeth amrywiol am y byd llyfrau. Yn ogystal ag anfon pecyn Diwrnod y Llyfr i bob ysgol yng Nghymru, y mae taflenni'r clybiau llyfrau – Sbri-di-ri a Sbondonics – hefyd wedi eu dosbarthu'n ddiweddar. Mae'r Adran Llyfrau Plant wrthi ar hyn o bryd yn paratoi'r pecyn gwybodaeth tymhorol sy'n cael ei ddosbarthu i'r ysgolion, ac mae croeso i unrhyw un fyddai'n dymuno cynnwys gwybodaeth yn y pecyn gysylltu â Lila Piette yn y Cyngor Llyfrau.

Llyfrwerthwyr a'r Dechnoleg Newydd

Yn ddiweddar, bu'r Cyngor Llyfrau'n gweinyddu cynllun i hybu'r defnydd o dechnoleg ymysg llyfrwerthwyr. Daeth nifer dda o geisiadau i law ac edrychwn ymlaen at weld y cynllun yn dwyn ffrwyth.

Rhestr Dyddiadau Pwysig

4 Mawrth – Diwrnod y Llyfr
14–16 Mawrth – Ffair Lyfrau Llundain
26–28 Mawrth – Cynhadledd yr 'Association for Welsh Writing in English' yng Ngregynnog

Ffair Lyfrau Llundain

Cynhelir Ffair Lyfrau Llundain ar 14–16 Mawrth ac fe fydd gan y Cyngor Llyfrau stondin yno eto eleni. Bydd y Cyngor yn cynrychioli nifer o gyhoeddwyr gan arddangos eu llyfrau. Mae croeso i unrhyw un a hoffai dderbyn rhagor o wybodaeth gysylltu â Bridget Shine yn yr Adran Farchnata.

Tramor ar y We

O ddiwedd Chwefror ymlaen fe fydd adran ychwanegol ar wefan y Cyngor Llyfrau yn rhoi sylw i'r ymgyrch dramor. 'Rydym yn siŵr y bydd cyhoeddwyr yn cael yr wybodaeth a'r newyddion ar y safle o ddefnydd iddynt,' meddai Bridget Shine, Swyddog Marchnata Dramor y Cyngor.

PWYNT CYSWLLT

Bydd y rhifyn nesaf o *Mewn Print* yn ymddangos ym mis Ebrill. Dylai unrhyw wybodaeth i'w chynnwys ynddo gael ei hanfon erbyn canol Mawrth at: **Elwyn Jones, Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB. E-bost: elwyn.jones@cllc.org.uk**
Gellir darllen y rhifyn hwn o *Mewn Print* ar y we: **www.cllc.org.uk**